

At:
Darparwyr Gofal

Mawrth 2020

Annwyl gydweithwyr,

COVID-19: Dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol i leoliadau gofal cymdeithasol

Yn sgil y sefyllfa sydd ohoni o ran COVID-19, mae'r wlad nawr wedi symud i'r cam oedi sy'n golygu her sylweddol i'r sector gofal cymdeithasol. Mae ein gweithwyr gofal cymdeithasol gwerthfawr yn hanfodol i barhau i ddarparu gofal a chymorth yng Nghymru. Mae eich ymroddiad i bobl agored i niwed yn hanfodol ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Diolch ichi am eich cymorth cyson.

Yn unol â'r canllawiau presennol mae cyflenwad o Gyfarpar Diogelu Personol yn cael ei ddsbarthu i'w ddefnyddio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ddealladwy, mae pryder wedi bod ynghylch faint o Gyfarpar Diogelu Personol sydd ei angen. Mae'r Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer staff gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol i bobl pan fo amheuaeth neu gadarnhad bod ganddynt y coronafeirws newydd (COVID-19) yn ôl y diffiniad presennol ar gyfer achosion yn y gymuned, naill ai'n byw yn eu cartrefi eu hunain, neu mewn cartrefi gofal.

Canllawiau ar ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol

Mae'n bwysig iawn bod pob aelod o staff yn defnyddio'r Cyfarpar Diogelu Personol cywir, tra maent yn rhoi gofal uniongyrchol i unrhyw un sydd â symptomau anadlu a allai fod yn sgil COVID-19, gan gynnwys tymheredd uchel a pheswch cyson.

Os nad oes symptomau gan y gweithiwr gofal na'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth, yna nid oes angen Cyfarpar Diogelu Personol y tu hwnt i arferion hylendid da arferol.

Os darperir Cyfarpar Diogelu Personol i'ch staff, ni ddylid ond ei ddefnyddio yn unol â'r canllawiau cenedlaethol sydd i'w gweld yn atodiad A a'r Llawlyfr Cenedlaethol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau y mae Cymru wedi'i fabwysiadu <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/95337>

Mae angen lefel uwch o Gyfarpar Diogelu Personol ar rai rhannau o ofal iechyd, yn enwedig y sector aciwt, gan eu bod yn ymgymryd â Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Erosolau (AGP). Serch hynny, mae'r Cyfarpar Diogelu Personol safonol a nodir yn atodiad A yn briodol ar gyfer lleoliadau gofal cymdeithasol.

Trefniadau interim

Dylid bob tro ddilyn unrhyw drefniadau arferol sydd gan ddarparwyr gofal i gaffael stoc Cyfarpar Diogelu Personol. Os na ellir cael at stoc Cyfarpar Diogelu Personol ac

wrth inni baratoi i ddsbarthu stoc Cyfarpar Diogelu Personol i awdurdodau lleol, mae trefniadau yn eu lle i ddarparwyr gofal ofyn i'r byrddau iechyd lleol am gymorth brys. Dim ond os oes achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau y dylid defnyddio'r trefniadau hyn.

Dosbarthu stoc

Bydd stoc gyfyngedig o Gyfarpar Diogelu Personol ar gael i ddarparwyr gofal o gyflenwad canolog wrth gefn a gynhelir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

- Menyg
- Ffedogau
- Masgiau Wyneb
- Cyfarpar Diogelu'r Llygaid y gellir ei aildefnyddio

Mae'n bwysig dilyn y canllawiau ar y defnydd priodol o Gyfarpar Diogelu Personol er mwyn defnyddio'r cyfarpar cywir yn unig, ei ddefnyddio'n gywir a dim ond pan fo angen, yn ôl y sefyllfa.

Bydd dosbarthu stoc Cyfarpar Diogelu Personol yn cael ei gydlyn gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a fydd yn dosbarthu'r cyflenwad i Storfeydd Cyfarpar ar y Cyd/Storfeydd Cyfarpar Cymunedol sy'n gwasanaethu awdurdodau lleol. Bydd y stoc yn cael ei gadw yn y lleoliadau hyn a bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn rheoli unrhyw geisiadau am stoc ynghyd â'r Storfa Cyfarpar ar y Cyd.

Rydym yn gweithio gyda Chydwasanaethau'r GIG ac awdurdodau lleol i ddsbarthu'r stoc hwn cyn gynted â phosibl. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i roi canllawiau i ddarparwyr gofal ar sut i ofyn am stoc Cyfarpar Diogelu Personol pan fo'r angen yn codi.

Cynghorir yr holl wasanaethau i gadw llygad ar y cyngor diweddaraf ar COVID-19 drwy wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yma:

<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>

Mae canllawiau cyffredinol pellach ar gyfer lleoliadau gofal preswyl, byw â chymorth a gofal yn y cartref ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-residential-care-supported-living-and-home-care-guidance>

Mae canllawiau ychwanegol pwrpasol i Gymru ar gyfer y lleoliadau hyn hefyd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Yn gywir

ALBERT HEANEY
CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AC INTEGREIDDIO

Annex A

Information about appropriate levels of PPE for Social Care Settings

The provided PPE stock must be controlled to preserve supply and only **used** for key interactions. The supply is intended for your social care staff who are within 1m of a patient to provide **direct care** to a symptomatic person in a care home or in their own home. It is **not intended for other uses and not for:**

- a. non contact care,
- b. Circulating staff like receptionists or admin staff within facilities.

Social distancing of 2m should be used for non-contact activities such as giving advice to relatives or service users or conducting verbal consultations. Also consider a demarked zone at reception points in social care facilities.

- **PPE MUST ONLY BE USED for the care of those with acute respiratory infection or influenza like illness (unless AGP's¹ performed)**
- **The PPE recommended for this is :**
 - Fluid Resistant Surgical Mask (FRSM),
 - Disposable gloves
 - Disposable plastic apron
 - ¹Appropriate eye protection after risk assessment of need if splashing or spraying of body fluids likely
- **Effective Hand Hygiene is Essential Combined with use of PPE**

Case definition

As of 13th March 2020 the possible [case definition](#) for COVID-19 is based purely on clinical criteria. While most people with COVID-19 will have a mild, self-limiting infection your service users may be in a vulnerable group because of age and underlying health problems.

Any service users meeting the possible case definition for COVID-19 should be isolated in their home or own room. Direct those in their own home to [“stay at home”](#) advice which can be found via the [NHS Direct](#). The service user or carer should be directed to phone their GP to discuss any worsening symptoms (or [NHS Direct](#) if out of hours). If symptomatic they should not attend the GP surgery in person or be taken to any other social care facilities and not go to A&E. If it is an emergency they or their carer should phone 999 and inform the call handler of their symptoms.

¹*Reusable eye protection must be decontaminated after every use.*